# Gweithgarwch Undebau Llafur

29 Tachwedd 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 22 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*Yn ystod blynyddoedd ariannol 2011/12 a 2012/13, sawl aelod o staff Comisiwn y Cynulliad gafodd amser i ffwrdd i gyflawni gweithgarwch Undebau Llafur yn ystod oriau gwaith y Cynulliad?*

Ar ôl cael eglurhad gennych, rwyf wedi dehongli 'gweithgarwch Undebau Llafur' fel gweithgareddau megis bod yn gynrychiolydd mewn cynhadledd neu fynd i gyfarfod swyddogol yr undeb, yn hytrach na chymryd rhan mewn unrhyw weithredu diwydiannol.

Ar 22 Hydref 2013, roedd 218 o aelodau o staff yn aelodau o Undebau Llafur cydnabyddedig y Cynulliad - PCS, FDA a Prospect. Dim ond cofnodion am y rheini sy'n aelodau o undeb os caiff eu tâl aelodaeth ei ddidynnu o'u cyflog a gedwir gennym.

Ar gyfer y staff hynny (tua 15) sydd â rolau swyddogol o fewn strwythurau cangen yr Undeb sydd ar waith i staff y Comisiwn, nodir y trefniadau yn y Cytundeb Amser Cyfleuster sydd ar waith rhwng Ochr yr Undebau Llafur y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad, fel y nodir isod.

Mae'r Cytundeb Amser Cyfleuster yn nodi'r egwyddorion a'r arferion sy'n llywodraethu'r cyfleusterau sydd ar gael gan y Comisiwn i staff sy'n gynrychiolwyr achrededig neu'n aelodau o undebau a gydnabyddir gan Gomisiwn y Cynulliad.

> *Bydd y Cynulliad yn cefnogi cost ac amser swyddogion Ochr yr Undebau Llafur (ar gyfradd(au) cyflog yr unigolyn/unigolion sy'n*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost / Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

*cyflawni'r rôl) fel y gall Ochr yr Undebau Llafur gyflawni ei swyddogaethau cysylltiadau cyflogeion fel y manylir isod:*

| | |
|---|---|
| *Swyddog Ochr yr Undebau Llafur wedi'i gyfuno â rôl Ysgrifennydd y Gangen PCS* | *1.00 Cyfwerth ag amser cyflawn* |
| *Cadeirydd Ochr yr Undebau Llafur y Fforwm Partneriaeth* | *40 awr y flwyddyn* |
| *Cadeirydd y Gangen PCS* | *40 awr y flwyddyn* |
| *Trysorydd PCS* | *36 awr y flwyddyn* |
| *Is-gadeirydd/Trefnydd PCS* | *33 awr y flwyddyn* |
| *Swyddog Iechyd a Diogelwch PCS* | *22 awr y flwyddyn (i fynd i gyfarfodydd cangen)* |
| *Swyddog Menywod PCS* | *22 awr y flwyddyn (i fynd i gyfarfodydd cangen)* |
| *Aelodau Cyffredin* | *150 awr y flwyddyn sydd â chyfanswm sydd gyfwerth â phump aelod yn gweithio 30 awr yr un* |
| *Caiff presenoldeb mewn Cyfarfodydd Gweithredol y Grŵp eu neilltuo i'r unigolion sy'n bresennol* | *Cyfanswm o chwe diwrnod* |
| *Cadeirydd y Gangen FDA* | *40 awr y flwyddyn* |
| *Trysorydd FDA* | *36 awr y flwyddyn* |
| *Aelod cyffredin FDA* | *30 awr y flwyddyn* |
| *Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch yr Undeb* | *20 awr y flwyddyn* |
| *Cynrychiolwyr Dysgu yr Undeb* | *20 awr y flwyddyn* |

*Gall ceisiadau rhesymol am amser i ffwrdd gael eu rhoi i aelodau undeb, at y dibenion canlynol:*

- *Mynd i Gynhadledd undeb llafur cydnabyddedig, naill ai fel cynrychiolydd neu gynrychiolydd dan hyfforddiant;*

- *Pleidleisio yn y gweithle yn etholiadau undebau;*
- *Mynd i gyfarfodydd undebau a gynhelir oherwydd natur frys y mater sydd i'w drafod;*
- *Bod yn bresennol mewn capasiti arbenigol, cyfarfodydd ar y cyd, neu gyfarfodydd Ochr yr Undebau Llafur, neu gyda swyddogion llawn amser yr undeb, neu gyda chynrychiolwyr achredededig, mewn perthynas â materion sydd o bwys ar y cyd i'r swyddog ac Ochr yr Undebau Llafur neu undebau;*
- *Mynd i gyfarfodydd undebau lle mae canghennau'n ystyried ac yn cynnig datrysiadau ar gyfer cynadleddau blynyddol;*
- *Cynrychioli undebau ar gyrff allanol sy'n berthnasol i gyflogaeth yn y Comisiwn e.e. yng nghyfarfodydd Cyngres yr Undebau Llafur.*

*Bydd aelodau undebau y mae angen amser i ffwrdd arnynt o dan ddarpariaethau'r paragraff hwn yn gofyn am ganiatâd eu rheolwyr. Ni chaiff caniatâd o'r fath ei wrthod yn afresymol. Dylid nodi credyd hyblyg ar gyfer yr amser i ffwrdd.*
*Pan fo angen i undeb gynnal cyfarfod o'r aelodau at y dibenion a nodir uchod, dylai'r undeb gytuno ar y trefniadau gyda rheolwyr gymaint ymlaen llaw â phosibl. Pan fo cyfarfod yn gorfod cynnwys cyfran fawr o gyflogeion ar unrhyw adeg benodol, dylai'r rheolwyr a'r undeb(au) dan sylw gytuno ar amser cyfleus sy'n lleihau'r aflonyddwch ar waith swyddogol ac sy'n sicrhau y cynhelir gwasanaethau e.e. tuag at ddiwedd y diwrnod gwaith neu ychydig cyn neu ar ôl egwylion.*

Fel y nodir yn y detholiad o'r polisi uchod, rydym yn annog staff i gymryd rhan mewn gweithgarwch undebau llafur sy'n golygu y gall staff gymryd amser i ffwrdd o'u desgiau i fynd i gyfarfodd undebau llafur, ond ni chaiff y wybodaeth hon ei chofnodi. Mae'r cyfarfodydd hyn yn amrywio o drafodaethau am gyflog, i Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol, i ymgynghoriadau ar newidiadau sylweddol i delerau ac amodau cyflogaeth ac ati.

Yn ôl y Cytundeb Amser Cyfleuster, mae'r ceisiadau canlynol am 'wyliau arbennig' wedi'u nodi ar ein system adnoddau dynol, er nad yw hyn yn cynrychioli cyfanswm y staff sydd wedi cael amser i ffwrdd ar gyfer gweithgarwch Undebau:

| | |
|---|---|
| 2011/12 | Cafodd llai na chwech aelod o staff amser i ffwrdd i gyflawni gweithgarwch Undebau Llafur yn ystod oriau gwaith y Cynulliad. |
| 2012/13 | Cafodd un aelod o staff amser i ffwrdd i gyflawni gweithgarwch Undebau Llafur yn ystod oriau gwaith y Cynulliad. |

Noder bod dull gwahanol wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â'r ddwy flwyddyn ariannol, a dylwn egluro hyn.

Ni allaf roi union ffigur ichi ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 gan y byddai hynny'n cyfrif fel prosesu data personol mewn ffordd annheg ac mae wedi'i eithrio o dan adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gweler yr atodiad am eglurhad llawnach.

Fodd bynnag, rhoddodd yr unigolyn ganiatâd penodol i ryddhau'r wybodaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad**

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf, fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 1998 ("y Ddeddf"), yn nodi:

> "Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless –
> (a) at least one of the conditions in Schedule 2 is met, and
> (b) in the case of sensitive personal data, at least one of the conditions in Schedule 3 is also met."

Diffinnir "data personol sensitif" gan y Ddeddf ac mae'n cynnwys data personol sy'n cynnwys gwybodaeth am p'un a yw gwrthrych y data yn aelod o undeb llafur, yn ogystal â barn wleidyddol gwrthrych y data.

Yn fy marn i, byddai datgelu nifer o staff Comisiwn y Cynulliad a gafodd amser i ffwrdd yn 2011/2012 i gyflawni gweithgarwch Undebau Llafur yn ystod oriau gwaith y Cynulliad, yn cynnwys prosesu data personol sensitif. Y rheswm yw bod y gweithgareddauyn rhai y byddai dim ond aelodau o undebau llafur yn cymryd rhan ynddynt. Gellir dadlau hefyd y gall hyn hefyd ddatgelu credoau gwleidyddol gwrthrych y data. At hynny, mae nifer y bobl mor isel fel y byddai rhyddhau'r union rif yn arwain at ddatgelu pwy ydynt.

Er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf, mae'n rhaid i unrhyw achos o ddatgelu o'r fath fod yn deg, yn gyfreithlon a bodloni o leiaf un amod o Atodlen 2 ac Atodlen 3 i'r Ddeddf.

Er mwyn ystyried yr amodau o fewn yr atodlenni, gofynnais am farn gwrthrychau'r data. Ni chafwyd barn gyffredin ac roedd yn amrywio o wrthod yn llwyr i ganiatâd penodol. Nid ymatebodd bawb.

Yn fy marn i, nid yw unrhyw un o'r amodau yn Atodlen 2 yn berthnasol, ar wahân i baragraffau 1 a 6. Mae paragraff 1 yn caniatáu prosesu os yw gwrthrych y data wedi "rhoi ei gydsyniad i'r prosesu". Fel y nodir uchod, ni roddodd pob gwrthrych data ganiatâd.

Mae paragraff 6 o Atodlen 2 yn caniatáu prosesu data o dan yr amodau a ganlyn:

> "The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."

Rwyf wedi ystyried yn ofalus eich hawl i fynediad o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a'r rhwymedigaethau y mae deddfwriaeth yn ei rhoi ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, yn fy marn i, nid yw'r ffactorau hyn yn gwrthbwyso buddiannau cyfreithlon a hawl i breifatrwydd gwrthrychau'r data dan sylw. Yn hytrach, rwyf hefyd yn ymwybodol bod y rhan fwyaf o wrthrychau'r data wedi teimlo na allent gydsynio i'r prosesu yn ystod yr ymgynghoriad, a deuthum i'r casgliad y byddai datgelu'r ffigurau yn cyfrif fel ymyrraeth ddiwarant i'w bywydau preifat. At hynny, rwyf o'r farn y byddai datgeliad o'r fath yn annheg.

Er na ellir bodloni unrhyw un o amodau Atodlen 2, rwyf wedi ystyried Atodlen 3. Yma, nid yw unrhyw un o'r amodau'n berthnasol, heblaw am baragraff 1, sy'n caniatáu prosesu pan fo gwrthrych y data wedi rhoi "caniatâd penodol". Er na allaf roi union ganlyniadau'r ymgynghoriad, gallaf ddweud wrthych mai dim ond y lleiafrif o wrthrychau'r data roddodd ganiatâd. O dan yr amgylchiadau, ni ellid bodloni paragraff 1.
Fodd bynnag, mewn ymdrech i ateb eich cais, rwyf wedi darparu'r wybodaeth mewn ffurflen ddienw drwy nodi'r wybodaeth ar ffurf ffigur 'yn llai na [x]'. Fy mwriad yw y bydd hyn yn eich galluogi i weld, yn gyffredinol, beth yw'r niferoedd dan sylw, tra'n cynnal hawliau gwrthrychau'r data dan sylw.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**